# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 3 Gorffennaf 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Llywodraeth Agored ac Atebol

**C12 Brian Hancock:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y cyfraniad y mae cyhoeddi polisi drwy ddatganiadau ysgrifenedig yn ei wneud tuag at lywodraeth agored ac atebol? (OAQ12323) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Prif Weinidog Cymru:** Mae datganiadau ysgrifenedig yn gyfrwng effeithiol i roi gwybod i Aelodau'r Cynulliad am faterion polisi a gweithredu sy'n bwysig ond nad ydynt yn haeddu cael amser penodedig mewn Cyfarfod Llawn. Os bydd Aelod o'r Cynulliad o'r farn na ymdrinwyd â mater polisi yn gywir drwy ddatganiad ysgrifenedig, mae sawl ffordd ar gael iddo dynnu'r mater hwnnw at sylw'r Cabinet neu'r Cynulliad.

*Atebwyd cwestiwn 13 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Cost Cyfieithiadau i'r Gymraeg

**C14 Gwenda Thomas:** Beth yw'r gost i'r Cynulliad Cenedlaethol bob blwyddyn am gyfieithiadau i'r Gymraeg? (OAQ12334)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Swyddfa'r Llywydd wedi neilltuo £1.3 miliwn ar gyfer y flwyddyn 2001-02 at gostau cyflogi gweithwyr y Gwasanaeth Cyfieithu, a £0.4 miliwn at gostau cyfieithu gan gyrff eraill.

Yr adrannau polisi sy'n talu costau argraffu a chyhoeddi dogfennau swyddogol, ond ni nodir costau eu cyfieithu ar wahân, nid o ran cyllido na gwario.

### Mesurau sydd yn Araith y Frenhines

**C15 Dafydd Wigley:** A all Prif Weinidog Cymru wneud datganiad ynghylch y ffordd y mae'r mesurau sydd yn Araith y Frenhines yn cyfateb i'r hyn y mae ei Lywodraeth wedi gofyn amdanynt? (OAQ12338) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd fy natganiad ar Araith yr Frenhines yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Gorffennaf yn gynhwysfawr ac yn eang ei gwmpas.

### Galluogi Grwpiau Lleiafrifol i Leisio'u Barn wrth Ddatblygu Polisi

**C16 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru esbonio sut y mae prosesau a gweithdrefnau'r Cynulliad Cenedlaethol yn galluogi grwpiau lleiafrifol i leisio'u barn yn llawn wrth ddatblygu polisi? (OAQ12317)

**Prif Weinidog Cymru:** Fel rhan o'n hymateb i'r diffyg hirhoedlog hwn yn natblygu polisi yng Nghymru, yr ydym yn ariannu Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan ac wedi helpu i sefydlu Anabledd Cymru. Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn bwrw ymlaen â'r agenda newid ac mae'r Gweinidogion a swyddogion yn cyfarfod ag aelodau'r comisynau cydraddoldeb yn rheolaidd.

**Dyletswyddau Cabinet y Cynulliad**

**C17 David Davies:** Pa fesurau y mae Prif Weinidog Cymru wedi’u rhoi ar waith i sicrhau y bydd Cabinet y Cynulliad yn ymgymryd â’i ddyletswyddau yn deg, yn agored ac er lles pobl Cymru bob amser? (OAQ12311)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae’r Cabinet yn atebol, drwy rym a ddiprwywyd, i’r Cynulliad a phobl Cymru gyfan. Mae’r atebolrwydd hwnnw wedi’u hyrwyddo yn sylweddol drwy gyhoeddi cofnodion y Cabinet a’i is-bwyllgorau ac, yn fwy diweddar, drwy gyhoeddi’r papurau cysylltiedig.

**Cyfrifoldeb am Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

**C18 Glyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch a oes gan y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw gyfrifoldeb uniongyrchol am Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru? (OAQ12332)

**Prif Weinidog Cymru:** Er bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi darparu cymorth ariannol i’r Ardd Fotaneg Genedlaethol drwy Fwrdd Croeso Cymru, sefydliad annibynnol ydyw.

**Rhaglen Ddeddfwriaethol Arfaethedig y Llywodraeth**

**C19 Lorraine Barrett:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig y Llywodraeth a’i oblygiadau i Gymru? (OAQ12320)

**Prif Weinidog Cymru:** Byddaf yn ymdrin â rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig y Llywodaeth a’i goblygiadau i Gymru yn fy natganiad ar 19 Gorffennaf.

**Hyrwyddo’r Iaith Gymraeg**

**C20 Elin Jones:** Ym mha ffordd y mae Prif Weinidog Cymru yn monitro’r ffordd y mae gweithrediad swyddogaethau Cabinet y Cynulliad yn cyfrannu at hyrwyddo’r iaith Gymraeg ar draws yr holl agweddau o ddatblygiad polisi? (OAQ12326) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Mae pob Gweinidog wedi ymrwymo i amcan y Cynulliad o hyrwyddo’r Gymraeg. Er enghraifft, mae’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu strategaeth i hyrwyddo’r Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Sefydlir tasglu Cymru gyfan i gefnogi’r strategaeth honno. Yr ydym yn ystyried ffyrdd o ffurfioli’n trefniadau ar gyfer ystyried y cyd-destun dwyieithog wrth lunio polisïau, fel rhan o’r gwaith o baratoi cynllun iaith Gymraeg newydd.

**Hyrwyddo Cymru Dramor**

**C21 Peter Black:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch y modd y mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn hyrwyddo Cymru dramor? (OAQ12327)

**Prif Weinidog Cymru:** Un o brif flaenoriaethau’r Cabinet yw codi proffil a dylanwad Cymru yn rhyngwladol. Trafodwyd hybu Cymru yn rhyngwladol yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Mehefin mewn dadl ar le Cymru yn y byd, lle cafwyd disgrifiad o’r camau y mae’r Cynulliad wedi’u rhoi ar waith er mwyn hybu Cymru yn rhyngwladol.

Mae’r camau hyn yn cynnwys datblygu pecyn o ddeunydd hybu newydd o ansawdd da fel rhan o’n menter ‘Wales World Nation’, rhaglen o ddigwyddiadau i hybu Cymru dramor, denu mwyfwy o ymweliadau uchel eu proffil i Gymru, a datblygu cysylltiadau â sawl rhanbarth a sefydliad dylanwadol.

Yr oeddwn wrth fy modd pan roddodd y Cynulliad ei sêl bendith yn y ddadl honno ar ymrwymiad y Cabinet i godi proffil a dylanwad Cymru.

### Gweithredu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'

**C22 Nick Bourne:** Yn dilyn ei ateb ar 15 Mai, a wnaiff Prif Weinidog Cymru roi adroddiad inni ynghylch sut y mae'r gwaith o weithredu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru' wedi mynd yn ei flaen ers hynny? (OAQ12330)

**Prif Weinidog Cymru:** Ers 15 Mai, derbyniodd y Cynulliad y cynnig i fwrw ymlaen â'r drefn apelio annibynnol i ffermwyr Cymru. Disgwylir y rhoddir y drefn hon ar waith erbyn diwedd mis Hydref 2001. Mae'r Cynulliad hefyd wedi mabwysiadu canllawiau ar strategaethau cymunedol, ac wedi cynnal dadl ar gynnydd y cynllun datblygu gwledig ar 14 Mehefin. Disgwylir i Gyswllt Ffermio gael ei roi ar waith ym mis Medi. Ar 19 a 21 Mehefin, cymeradwyodd y Cynulliad reoliadau sy'n rhoi fframwaith cynhwysfawr o gynigion ar waith, gan sicrhau safonau uchel o ymddygiad yn llywodraeth leol yng Nghymru.

### Cynhadledd Pwyllgorau Materion Ewropeaidd y Seneddau Cenedlaethol a Senedd Ewrop

**C23 Phil Williams:** Beth fydd cyfraniad y Cynulliad Cenedlaethol i gynhadledd pwyllgorau materion Ewropeaidd y seneddau cenedlaethol a Senedd Ewrop? (OAQ12337)

**Prif Weinidog Cymru:** Ar y cyfan, mater i'n Pwyllgor Materion Ewropeaidd yw cynrychioli'r Cynulliad ar gyrff sy'n ymwneud â phwyllgorau materion Ewropeaidd. Nid yw'r Cynulliad yn aelod o'r corff a grybwyllir yn y cwestiwn. Mae Pwyllgor Materion Ewropeaidd y Cynulliad yn cael ei gynrychioli mewn cyfarfodydd â phwyllgorau Ewropeaidd eraill y DU.

### Blaenraglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth San Steffan

**C24 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar flaenraglen ddeddfwriaethol Llywodraeth San Steffan a sut y mae'n effeithio ar Gymru. (OAQ12325) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Byddaf yn gwneud datganiad ar gynlluniau deddfwriaethol Llywodraeth San Steffan a'u heffeithiau ar Gymru yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 19 Gorffennaf.

### Ad-drefnu Adrannau Llywodraeth y DU

**C25 Peter Rogers:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch ad-drefnu adrannau Llywodraeth y DU? (OAQ12312)

**Prif Weinidog Cymru:** Mater i Lywodraeth y DU ei hunan yw ei threfn fewnol a'i hadrannau, ond mae'r Ysgrifennydd Gwladol a minnau wedi trafod trefniadau newydd Swyddfa'r Prif Weinidog ar gyfer cyfathrebu â gweinyddiaethau datganoledig.

### Effaith y Cytundeb Partneriaeth ar Ddwyrain De Cymru

**C26 William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch effaith y cytundeb partneriaeth ar Ddwyrain De Cymru? (OAQ12310)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r cytundeb partneriaeth wedi darparu ar gyfer cyflawni polisïau yn gryf, a bron yn ddiau, i bobl Dwyrain De Cymru, a'r bedair rhanbarth etholaethol arall yng Nghymru. Rhoddwyd datganiad ar lwyddiannau 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' hyd yn hyn ar 20 Mawrth 2001.

### Effaith y Mesur Troseddau ar Heddluoedd Cymru

**C27 Alison Halford:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch y Mesur Troseddau a'i effaith ar heddluoedd Cymru? (OAQ12335) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Adolygu'r Targedau yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'

**C28 Janet Ryder:** Pa gynlluniau sydd gan Prif Weinidog Cymru i adolygu'r targedau yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ12324) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Gwnaethpwyd datganiad ar ddatblygiad ymrwymiad y cytundeb partneriaeth i'r Cyfarfod Llawn ar 20 Mawrth 2001. Yr wyf yn falch o ddweud, ers hynny, yr ydym wedi cyflwyno archwiliadau deintyddol a phresgripsiynau am ddim i bobl o dan 25 oed.

Yn ogystal, mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu canllawiau ar strategaethau cymunedol. Trafodwyd datblygiad y cynllun datblygu gwledig gan y Cynulliad ar 14 Mehefin. Disgwylir i Gyswllt Ffermio ddod i rym ym Medi. Ar 19 a 21 Mehefin, cymeradwyodd y Cynulliad reoliadau a arweiniodd at fframwaith cynhwysfawr o argymhellion, gan sicrhau safonau ymddygiad uchel mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Yr ydym yn bwriadu cyhoeddi drafft o gynllun strategaeth i olynu 'GwellCymru.com' cyn bo hir. Bydd trafodaeth ar y cynllun yn rhoi cyfle i bobl edrych eto ar y targedau sydd yn bodoli.

## Rheoli Cyllidebau

**C29 Helen Mary Jones:** A oes gan Brif Weinidog Cymru unrhyw gynlluniau i adolygu'r modd y mae Gweinidogion y Cabinet yn rheoli'u cyllidebau? (OAQ12321)

**Prif Weinidog Cymru:** Nac oes. Serch hynny, mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cyfarfod â'i chyd-aelodau yn y Cabinet yn rheolaidd i adolygu cyllidebau a chynllunio gwariant y dyfodol. Mae'n bwriadu gwneud hynny eto ym mis Medi i adolygu pum mis cyntaf y flwyddyn hon ac i drafod faint sy'n debygol o gael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn.